

PENNAETH MARCHNATA
AC YMGYSYLLTU



DISGRIFIAD SWYDD



PENNAETH MARCHNATA
AC YMGYSYLLTU



DISGRIFIAD SWYDD



CROESO

Y SEFYDLIAD

CYFLWYNIAD

SGILIAU, GWYBODAETH A PHROFIAD GOFYNNOL

Y CAMAU NESAF

PENNAETH MARCHNATA AC YMGYSYLLTU

CROESO

Diolch yn fawr iawn i chi am eich diddordeb yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a rôl y Pennaeth Marchnata ac Ymgysylltu.

Rydym yn byw ar adeg o newidiadau enfawr mewn cymdeithas ac ym myd gwyddoniaeth a thechnoleg, ac rydym yn wynebu heriau amgylcheddol mawr a cholledion parhaus o ran bioamrywiaeth. Gyda'n casgliadau unigryw, ein hystad helaeth, sy'n cynnwys y gerddi botaneg, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las a fferm organig, a'n rhaglenni arloesol, mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru mewn sefyllfa bwerus i ennyn diddordeb pobl mewn planhigion, gwyddoniaeth, cadwraeth, a'r byd naturiol ehangach, yn ogystal â natur ar gyfer iechyd a llesiant cymdeithas.

Yr Ardd yw un o brif atyniadau Cymru o ran bod yn gyrchfan, ac rydym am gysylltu cynulleidfaoedd â phlanhigion a'n gwaith, a herio'r modd y mae pobl yn meddwl ynghylch bioamrywiaeth a natur – ei gorffennol, ei phresennol, a'i dyfodol.

Mae hon yn adeg gyffrous i ymuno â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Ac iddi agenda a gweledigaeth strategol uchelgeisiol, mae rôl sy'n diffinio gyrfa ar gael i weithredwr marchnata strategol uchelgeisiol a thalentog.

Bydd effaith eich gwaith yn ffurfio rhan bwysig o'r broses o leoli Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar gyfer y dyfodol a sicrhau ei chydnerthedd. Mae'r rôl hon yn hanfodol i gynlluniau ein helusen ar gyfer twf a chynaliadwyedd gan ei bod yn gweithio i estyn proffil a chyflawniadau un o gyrchfannau mwyaf eiconig Cymru.

Rydym yn chwilio am rywun i adrodd ein stori a'n helpu i barhau i ddatblygu ein brand o ran bod yn sefydliad cenedlaethol, i herio canfyddiadau, ac i gynyddu a meithrin ein cynulleidfaoedd a'u cefnogaeth i'r gwaith a wnawn ac i'n gwasanaethau, a'r modd y maent yn ymgysylltu yn hynny o beth.

Mae hon yn rôl strategol allweddol a fydd yn sicrhau bod cwrmpas ac enw da Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn cael eu hatgyfnerthu a'u cyfleu'n glir ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb – mae amrywiaeth, cynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn yn bwysig i ni. Rydym yn chwilio am arweinydd marchnata a chyfathrebu uchelgeisiol, talentog ac ymroddgar sydd am chwarae rôl hanfodol yn nyfodol ein sefydliad eiconig.

Os chi yw'r unigolyn hwnnw, edrychaf ymlaen at glywed gennych.


Dr Lucy A. Sutherland

Y Cyfarwyddwr, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru



PENNAETH MARCHNATA AC YMGYSYLLTU

Y SEFYDLIAD



Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (GFGC) yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn elusen gofrestredig sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo a rhannu gwybodaeth ym maes gwyddor planhigion ac ysbrydoli pobl i werthfawrogi fflora, diwylliant a threftadaeth Cymru i gyfoethogi bywydau.

Agorwyd yr Ardd yn swyddogol yn y flwyddyn 2000, ym mhrydferthwch Dyffryn Tywi. Mae'r ystâd helaeth 564 erw yn cynnwys tirwedd dreftadaeth gradd 2*, gardd fotaneg, gwarchodfa natur genedlaethol a fferm organig. Y Tŷ Gwydr Mawr, a ddyluniwyd gan yr Arglwydd Norman Foster a Phartneriaid, yw un o dirnodau mwyaf eiconig Cymru. Mae'r Ardd yn drysor cenedlaethol ac yn atyniad twristaidd blaenllaw, sydd wrth fodd pawb sy'n ymweld â hi.

Caiff yr Ardd hefyd ei pharchu ledled y byd am y rôl y mae'n ei chwarae o ran gwarchod a diogelu rhai o'r planhigion sydd fwyaf dan fygythiad ar y blaned. Yr Ardd yw'r ardd fotaneg gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael ei chydabod gan y Botanic Gardens Conservation International, a dyfarnwyd pob un o'r tair lefel o achrediad cadwraeth iddi, yn cynnwys Ymarferydd Cadwraeth Uwch.

Daeth yr Ardd allan o'r pandemig fel safle a enillodd sawl gwobr, gan gynnwys Gwobr Dewis y Bobl Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE) am ei thirwedd hanesyddol a adferwyd, ac yn un sy'n meddu ar enw da uwch o fod yn ganolfan ar gyfer garddwriaeth, gwyddoniaeth, cadwraeth a chynaliadwyedd. A hithau'n ganolfan rhagoriaeth mewn cadwraeth ac ymchwil, mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn darparu prentisiaethau a ariennir, cyfleoedd hyfforddi, a rhaglenni helaeth ar gyfer ysgolion.

A hithau'n ganolfan rhagoriaeth mewn cadwraeth ac ymchwil, mae'r Ardd yn darparu prentisiaethau a ariennir, cyfleoedd hyfforddi a rhaglenni ysgolion helaeth. Mae ein casgliadau a'n hymchwil yn rhan o gymuned fyd-eang o erddi botaneg. Mae gennym rôl hanfodol o ran gwneud darganfyddiadau, darparu hyfforddiant a throsglwyddo gwybodaeth er budd pobl, bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Ar y cyd â phrifysgolion, Llywodraeth Cymru a phartneriaid anllywodraethol, mae amryw o ddisgyblaethau yn cael eu dwyn ynghyd i wneud darganfyddiadau newydd sy'n ymladd y broses o golli bioamrywiaeth. Mae gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru tua 70 o staff FTE, 250 o wirfoddolwyr a 11,000 o aelodau, ac mae'n gymuned fywiog, angerddol o bobl sy'n ymroddedig i sicrhau bod popeth a wnawn yn cael effaith.

PENNAETH MARCHNATA AC YMGYSYLLTU

CYFLWYNIAD

Rydym yn chwilio am Bennaeth Marchnata ac Ymgysylltu uchelgeisiol, creadigol a masnachol ei feddwl i ymuno â'r Uwch-dîm Arwain a helpu i lunio dyfodol un o brif atyniadau elusennol ymwelwyr Cymru.

Bydd y Pennaeth Marchnata ac Ymgysylltu yn chwarae rhan ganolog wrth leoli Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar gyfer y dyfodol trwy gynllunio a gweithredu ymgyrchoedd marchnata sy'n cynyddu nifer yr ymwelwyr a'u hymgyssylltiad, yn tyfu aelodaeth a ffrydiau incwm, yn cryfhau ymwybyddiaeth am y brand, yn ehangu cyrhaeddiad digidol, yn hyrwyddo rhaglenni craidd yr Ardd ac yn helpu'r Ardd i gyflawni ei huchelgeisiau strategol hirdymor.

Bydd llwyddiant yn y rôl hon yn gofyn am i chi gyfrannu arweinyddiaeth strategol gref wrth gynnal dull gweithredu ymarferol o gyflawni canlyniadau effeithiol.

Llinell Adrodd: Y Cyfarwyddwr, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Lefel: Yn aelod o'r Uwch Dîm Arwain

Cyflog: £60,000

Y Tîm: Pedwar aelod o staff yn adrodd yn uniongyrchol, sy'n ddwyieithog, a gwirfoddolwyr i gefnogi gwaith yr Adran.

Lleoliad: Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne Sir Gaerfyrddin

Arweinyddiaeth Strategol

- Datblygu ac arwain strategaeth marchnata, cynnwys cyfryngau a datblygu cynulleidfaoedd yr Ardd, ynghyd ag ymgyrchoedd cysylltiedig, i gyd-fynd â chenhadaeth yr elusen, ei hamcanion strategol a'i hagenda twf.
- Cyfrannu fel aelod o'r Uwch-dîm Arwain at waith cynllunio sefydliadol a gwneud penderfyniadau.
- Darparu arweinyddiaeth meddwl strategol a chynghor arbenigol ar arfer gorau ar gyfer marchnata, brand, a thueddiadau o ran y gynulleidfa i'r Cyfarwyddwr a'r Bwrdd.
- Gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr a'r Uwch-dîm Arwain i ddatblygu a hwyluso rhwydwaith o gefnogwyr ac eiriolwyr sy'n cyfrannu at broffil ac effaith y sefydliad.
- Mae parch at dreftadaeth a diwylliant Cymru, gan gynnwys ei hiaith, a chydabyddiaeth ohonynt, yn hanfodol.

PENNAETH MARCHNATA AC YMGYSYLLTU

Arwain Pobl

- Arwain, datblygu ac ysbrydoli tîm amlddisgyblaethol dwyieithog sy'n gweithio ar draws marchnata, cyfathrebu ac ymgysylltu, gan gynnwys dysgu gydol oes. Rhaid i'r rôl hon ddarparu arweinyddiaeth weledigaethol, garismatig i arwain, ysgogi ac ysbrydoli'r tîm ac ymgysylltu â staff ehangach a'u cefnogi.
- Meithrin diwylliant perfformiad uchel, cydweithredol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Datblygu'r gyllideb flynyddol a rheoli cyllidebau yn effeithiol, gan gynnwys ailragolygon chwarterol, a sicrhau enillion cryf ar fuddsoddiad marchnata, sy'n destun cofnodion ac adroddiadau rheolaidd.

Marchnata a Brand

- Arwain y gwaith o ddatblygu ymgyrchoedd marchnata integredig ar draws sianeli digidol, print, cyfryngau a phartneriaeth.
- Datblygu fframwaith cynnwys cyfryngau i gefnogi dulliau cyfathrebu am yr Ardd ac o fewn yr Ardd.
- Diogelu a gwella brand, enw da a phroffil cyhoeddus yr Ardd.
- Rheoli ac adrodd ar ymchwil i'r farchnad, mewnwelediadau cynulleidfadau dadansoddiad perfformiad i gefnogi gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau.

Cynyddu Nifer yr Ymwelwyr a Datblygiad Masnachol

- Arwain a chydweithio ar ymgyrchoedd i gynyddu derbyniadau, aelodaeth, manwerthu, arlwyyo, digwyddiadau a ffrydiau incwm eraill.
- Datblygu ymgyrchoedd sy'n hyrwyddo ymweliadau trwy gydol y flwyddyn ac yn denu cynulleidfaoedd newydd.
- Cefnogi'r tîm codi arian trwy arwain y gwaith o gyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol sy'n cyfrannu.

Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus

- Arwain cysylltiadau â'r cyfryngau, materion cyhoeddus a chyfathrebu â rhanddeiliaid yn strategol.
- Gyda'r Cyfarwyddwr, rheoli enw da a chyfathrebu mewn argyfwng yn ôl y gofyn.

Dyletswyddau Llysgenhadol

- Cynrychioli GFGC yn allanol a chynnal perthynas effeithiol â chleientiaid, partneriaid, rhanddeiliaid allweddol, y cyfryngau a chefnogwyr ledled y wlad ac o bosibl dramor.
- Bod yn llefarydd ar ran GFGC yn ôl y gofyn.



SGILIAU, GWYBODAETH A PHROFIAD GOFYNNOL

Y meini prawf a'r dystiolaeth a ddisgwylir	Dull Asesu		
Addysg/Cymwysterau Gwybodaeth/Profiad Cymwyseddau/Galluoedd	Llythyr eglurhaol	Cyfweliad 1	Cyfweliad 2
Meini Prawf Hanfodol			
Profiad sylweddol o farchnata ar lefel uwch	✓	✓	
Hanes sicr o ddarparu strategaethau marchnata llwyddiannus ar gyfer tyfu cynulleidfaoedd, datblygu brand a chynhyrchu incwm	✓	✓	✓
Profiad o arwain, ysbrydoli a datblygu timau perfformiad uchel ar ddechrau ac yng nghanol eu gyrfa	✓	✓	✓
Profiad o reoli perthnasoedd cymhleth â rhanddeiliaid (mewnol ac allanol) yn llwyddiannus	✓		✓
Sgiliau cyfathrebu rhagorol. Profiad o fod yn llefarydd i sefydliad, gan gysylltu â newyddiadurwyr a'r cyfryngau	✓	✓	
Meddwl blaengar sydd â'r gallu i sganio'r gorwel a nodi cyfleoedd a bygythiadau i'r Ardd			
Llwyddiant sicr wrth harneisio marchnata digidol ac ymgysylltu â'r gynulleidfa	✓		
Yn cael eich llywio gan ddata a'ch ysgogi gan ganlyniadau – profiad o ddadansoddi tueddiadau'r farchnad ac ysgogi datblygiad busnes a chyflwyno data perfformiad ac ariannol		✓	✓
Sgiliau rheoli cyllideb ac ariannol cryf gyda chraffter masnachol	✓	✓	✓
Ymrwymiad i bobl, iaith a diwylliant Cymru	✓		✓
Dymunol			
Deall twristiaeth ac atyniadau ymwelwyr			✓
Profiad o werthu a marchnata yn y sectorau creadigol, addysgol neu wyddoniaeth	✓		
Profiad o ddiwylliant elusennol a masnachol integredig, treftadaeth, atyniadau ymwelwyr	✓	✓	
Yn gallu ysgrifennu a siarad Cymraeg yn rhugl, ac wedi ymrwymo i gefnogi cyfathrebu dwyieithog	✓	✓	✓
Hyfedredd mewn sefydlu a rheoli systemau CRM	✓	✓	
Profiad o sefydliadau sy'n seiliedig ar aelodaeth	✓		
Profiad o gefnogi amcanion codi arian a dyngarol	✓		✓
Mentrau Amrywiaeth a Chynhwysiant: Profiad o ddatblygu a gweithredu mentrau i sicrhau hygyrchedd ac apelio at gynulleidfaoedd amrywiol a rhai heb gynrychiolaeth ddigonol	✓		

PENNAETH MARCHNATA AC YMGYSYLLTU

Y CAMAU NESAF

Y dyddiad cau yw 23 Hydref 2026. Bydd y cyfweiliadau'n cael eu cynnal cyn gynted ag y bydd yn ymarferol gwneud hynny.

Mae GFGC yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, ac ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Gwahoddir yr ymgeiswyr a fydd wedi cyrraedd y rhestr fer i gyfweiliadau yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Bydd yna ddau gam i'r broses gyf-weld.

Mae GFGC yn croesawu ceisiadau gan bawb – mae amrywiaeth, cynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn yn bwysig i ni. Trwy ddenu pobl i weithio i ni o ystod eang o gefndiroedd amrywiol, gallwn barhau i edrych ar y byd â llygaid ffres a dod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau. Rydym yn cynnig amgylchedd ysgogol a phroffesiynol i weithio ynddo. Mae hwn yn lle anhygoel, ac rydym yn chwilio am staff a all weithio'n unol â'n gwerthoedd – rydym yn hyrwyddo amrywiaeth ac yn annog creadigrwydd, rydym wedi'n cysylltu, ac rydym yn rhoi gwerth ar dystiolaeth.

Croesewir ymholiadau anffurfiol a dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Dr Lucy A. Sutherland, y Cyfarwyddwr:

Lucy.Sutherland@gardenofwales.org.uk.

Applications, in the form of a cover letter and CV Dylai ceisiadau, ar ffurf llythyr eglurhaol a CV, ddangos yn glir y modd yr ydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol a dymunol, a dylid eu hanfon trwy e-bost at HRManager@gardenofwales.org.uk

Sylwch na fyddwn yn cysylltu â chanolwyr nes bod cynnig wedi'i wneud i ymgeisydd llwyddiannus.

Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial mewn Ceisiadau:

Rydym am ddeall eich diddordeb gwirioneddol yn y rôl hon, ac am i'ch cais ysgrifenedig adlewyrchu eich arddull gyfathrebu eich hun yn gywir. Gall ceisiadau sy'n dibynnu gormod ar offer deallusrwydd artiffisial ymddangos yn generig a bod yn ddiffygiol o ran y manylion y mae arnom eu hangen i asesu eich sgiliau a'ch profiad. Nid ydym yn defnyddio deallusrwydd artiffisial yn rhan o'n proses recriwtio.



